

Telynores yn ennill Cerddor Ifanc y Flwyddyn Caerffili



Enillodd Anwen Mai Thomas y wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth Cerddor Ifanc y Flwyddyn 2016 ar 5ed o Fawrth. Mae Anwen yn ddisgybl yn chweched dosbarth Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Llwyddodd i gyrraedd y brig, gan ennill categori llinynnau, cyn cyrraedd y ffeinal gyda 5 o gerddorion eraill - dau ohonynt yn gyd-ddisgyblion yng Nghwm Rhymni sef, William Morris (llais) ac Aled Diplock (sacsaphon).

Dechreuodd Anwen ganu'r delyn yn 9 oed a llwyddodd i basio Gradd 8 hefo rhagoriaeth yn ystod yr haf diwethaf o dan hyfforddiant ei hathrawes Kathryn Rees-Peak. Mae Anwen yn cadw'n brysur fel telynores trwy chwarae mewn cyngherddau a phriodasau ac i'r trigolion yng nghartref gofal Tŷ Pen Rhos. Hefyd, enillodd hi ail wobwr mis diwethaf yng nghystadleuaeth ryngwladol "London Grand Prize Virtuoso". Mi fydd hi'n teithio i gystadlu yng Ngŵyl Gerddorol Gregynnog mis nesaf. Ymunodd hi â'r 'National Youth Orchestra Inspire Strings Ensemble' yn Lerpwl dros hanner tymor. Mae Anwen yn eilydd ar hyn o bryd i Gerddorfa Ieuenctid Genedlaethol Prydain ac mae'n gobeithio parhau ag astudiaethau fel telynores mewn Conservatoire yn y dyfodol.

Mae Anwen yn astudio lefel 'A' Cerddoriaeth, Drama, Hanes a'r Fagloriaeth Gymraeg yn ei blwyddyn gyntaf yn y chweched dosbarth. Mae'n chwarae'r piano ac yn mwynhau canu gyda côr yr ysgol. Enillodd Anwen Unawd Telyn blwyddyn 10 dan 19 oed yn Eisteddfod Ranbarthol Gwent ac mi fydd hi'n cynrhychioli'r ardal yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir y Fflint ym Mis Mai. Fel aelod o Adran Bro Taf ers blynnyddoedd, mae Anwen hefyd yn ddawnsraig y gloesen fedrus ac mae wedi teithio ledled Cymru i berfformio, yn ogystal ag ennill cystadleuaeth Dawnsio Gwerin Ryngwladol ym Mallorca hefo'r tîm.

Mae Anwen yn byw yng Nghaerffili gyda'i rhieni Grace a Mark ac mae ei chwaer Elin yn astudio "MSc Marine Biology" yn ei hail flwyddyn ym Mhrifysgol Southampton.



Cadeirydd: Robert Dutt

Ymgynghorydd: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis Golygydd Lluniau: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney Digwyddiadur: Lowri Jones Lowri@mentercaerffili.org

Ieuenctid: Morgan Roberts Swyddog Prosiect Llais, Menter Caerffili

Pwyllgor: Eleri Betts, Eirlys Thomas, Dafydd Islwyn, Tamsin Graves a Gareth W. Williams

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Cefnogi Disgyblion i Astudio Cyrsiau drwy'r Gymraeg

Bydd modd i ddarpar fyfyrwyr ymgeisio am Ysgoloriaeth Cymhellant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o £1,500 cyn 8 Mai 2016.

Bwriad Ysgoloriaethau Cymhellant y Coleg yw cynnig cymorth ariannol i ddisgyblion sy'n dymuno astudio o leiaf 33% o'u cwrs gradd drwy'r Gymraeg.

Mae o leiaf 150 o'r ysgoloriaethau hyn ar gael ac mae cannoedd o gyrsiau yn gymwys i dderbyn yr arian.

Y dull gorau o wirio a yw cwrs yn gymwys i dderbyn yr arian yw trwy ddefnyddio'r Chwilotydd Cyrsiau sydd ar wefan y Coleg Cymraeg neu trwy lawrlwytho'r fersiwn Ap.

Bydd modd i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio cyrsiau ym meysydd gwyddoniaeth, mathemateg, daearyddiaeth, y gyfraith, ieithoedd modern, amaeth, seicoleg, chwaraeon, busnes, meddygaeth ac athroniaeth wneud cais am yr arian.

Un oedd yn falch o glywed bod Cemeg yn gymwys i dderbyn £1,500 oedd Rhodri Mir Williams, gafodd ei eni a'i fagu yn Gran Canaria ond sydd bellach yn astudio ym Mhrifysgol Bangor:

"Roedd derbyn arian gan y Coleg Cymraeg yn golygu fy mod yn gallu ymgymryd â chyfnod o brofiad gwaith sy'n debygol o wella fy sgiliau Cymraeg. Rwy'n falch fy mod i'n gallu siarad Cymraeg ond roedd ysgrifennu drwy'r Gymraeg yn brofiad newydd i mi. Fuaswn i'n annog darpar fyfyrwyr i fanteisio ar y cyfleoedd i ddilyn rhan o'u hastudiaethau prifysgol drwy'r Gymraeg ac ymgeisio am Ysgoloriaeth Cymhellant y Coleg Cymraeg cyn 8 Mai 2016!"

Mae pecyn ymgeisio llawn ar wefan y Coleg Cymraeg – www.colegcymraeg.ac.uk/ysgoloriaethau neu gellir cael rhagor o wybodaeth trwy e-bostio gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk neu ffonio 01267 610400.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Manon Llwyd-Bowen, Swyddog Datblygu Marchnata a Chyf-fathrebu, ar 01267 610414, neu e-bostiwch m.llwyd-bowen@colegcymraeg.ac.uk



Noddir gan
Llywodraeth
Cynulliad Cymru

MERCHED Y WAWR CWM RHYMNI



Merched y Wawr Cwm Rhymni yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi yn Junction 28

Noson yng nghwmni Bethan Jones

Daeth Bethan Jones, Swyddog Datblygu Cymunedol, Menter Caerffili, i adrodd hanes ei hymweliadau â Papua New Guinea ar hyd y blynyddoedd. Daeth â gwybodaeth eang i ni am addysg, arferion, bwydydd, cred a gwleidyddiaeth yr ardal lle trigia tua 7 miliwn o bobl a siaredir dros 800 o ieithoedd. Hon yw un o wledydd gyda'r amrywiaeth diwylliannol mwyaf yn y byd. Fe ddysgom lawer am ran o'r byd na wyddai y rhan fwyaf ohonom fawr ddim amdano. Fe ddaeth Bethan â nifer lliwgar o grefftau o'r ynysoedd a dangosodd lu o luniau i ni o'i phrofiadau yno dros y blynyddoedd - gan gynnwys lluniau o'u hoff weithgaredd, deifio tan ddŵr. Bu rhieni Bethan yn athrawon ar ynysoedd Papua am flynyddoedd lawer - a dyna sut y bu iddi ddod mor gyfarwydd â'r ynysoedd unigryw yma i'r gogledd o Awstralia yn y Cefnfor Tawel. Noson werthfawr a difyr oedd hon.

Cwrs Crefft y De



Ymunodd Jenni Jones-Annetts, Maureen Potter a Gaynor Williams â thua 50 o aelodau canghenau'r de ar gwrs crefft a gynhaliwyd yng Ngwesty Tŷ Glyn Aeron ger Aberaeron. Fe fu siawns i greu llun o dan hyfforddiant a gofal Rhiannon Roberts, sy'n hannu o ardal Aberaeron ond yn byw nawr ym Mae Caerdydd, ac yn enwog dros Gymru am ei darluniau lliwgar, chwareus a hapus. Mae Rhiannon wedi hen arfer a chynnal gweithdai i ddisgyblion ysgolion Cymru ond dyma'r tro cynta, meddai, iddi greu gweithdy ar

gyfer oedolion. Bu eraill wrthi'n creu calonnau papur a byntins. Treuliwyd diwrnod hwylus a chymdeithasol. Doedd rhai ohonom ddim wedi codi brwsheis dyddiau ysgol ond roeddem fel plant yn mynd adre i ddangos ein darn o gelf neu grefft.



DIGWYDDIADUR MERCHED Y WAWR

Nos Fercher, 20 Ebrill

7.00 Cyfarfod blynyddol

7.30 Cacen a chlonc

Ysgol Penalltau, Ystrad Mynach, CF82 6AP

Nos Fercher, 18 Mai am 7.30

"Calon Iach" gyda Dr Gethin Ellis

Festri Capel Bethel, Heol Nantgarw, Caerffili

Nid yw'r digwyddadau uchod yn gyfyngedig i aelodau Mercher y Wawr. Os hoffech ymuno â ni neu am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r digwyddiadau uchod, cysylltwch â

Gaynor (gaynorw555@gmail.com neu ar 07984197629)

Eisteddfod y Cymoedd

Wyddoch chi fod ein heisteddfod leol yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeg oed eleni?

Ac wrth ddathlu'r garreg filltir bwysig hon, mae newidiadau mawr wedi digwydd a gwelliannau eraill ar y gweill. Oherwydd yn ystod cyfarfod y 25ain o Ionawr cafwyd newid yn arweinyddiaeth yr Ŵyl.

Mae Aled John wedi camu ymlaen i gymryd lle'r Parchedig Ddoctor R. Alun Evans yn Gadeirydd y pwyllgor llywio. Dr Alun, wrth gwrs, feddylodd am y syniad o gynnal eisteddfod yn yr ardal hon yn y lle cyntaf. Ac rydym wrth ein bodd fod chwaer Aled, Luned Jones, wedi cytuno i fod yn ysgrifennydd ar y cyd â'i ffrind Rhian Jones. Bydd y ddwy yma yn dilyn Siân Parry Griffiths, Linda Charnell-White a Gwilym ac Eirlys Thomas a fu, yn eu tro, yn gwneud y gwaith caib a rhaw o drefnu'r eisteddfod. Mae'n bleser cyhoeddi hefyd, fod Alan Gwynant yn parhau yn is-gadeirydd a Mair Gwynant yn dal ei gafael yn y cyllid. Mae'r ddau hyn yn sicrhau dilyniant yng ngweinyddiad yr eisteddfod. Mae'r pwyllgor newydd yn ddiolchgar iawn fod nifer o'r "hen stagers" yn dal i fod yno i gynnig eu cefnogaeth a'u profiad gwerthfawr. Gwerthfawrogwn bob cyfraniad dros y blynyddoedd a fu. Y bardd Dafydd Islwyn a fydd, yn ôl ei arfer yn gosod y testunau ar gyfer y cystadleuthau llenyddol - cerdd heb fod mwy na hanner can llinell, englyn, limerig ag ati.



Gobaith mawr y pwyllgor ers peth amser oedd y byddent yn gallu manteisio ar beth o'r egni a'r brwdfrydedd a arweiniodd at lwyddiant Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llancaeach Fawr y llynedd. Wrth ddarllen yr enwau uchod, gwelir bod hyn wedi digwydd. Yn ychwanegol i'r sawl a gymerodd swydd, mynegodd eraill eu hawydd i roi eu hysgwyddau dan y maen. Mae Lynwen John, Cerian Arianrhod, Sara Davies, Gwyn Thomas ac, wrth gwrs, Osian Rowlands ymhlith y criw sydd am symud yr eisteddfod yn ei blaen am ddegawd arall, a mwy.

Eisoed penderfynwyd newid y dyddiad. Ers deng mlynedd cynhaliwyd yr eisteddfod y nos Wener cyn nos Wener olaf hanner tymor yr Hydref. Ond nodwch yn eich dyddiaduron nawr, os gwelwch yn dda, mai nos Wener, 4ydd o Dachwedd fydd y dyddiad eleni. Ac er mai yn Ysgol Lewis i Ferched, Ystrad Mynach, y cynhaliwyd yr eisteddfod hyd yn hyn, mae yna deimlad y gellid dod o hyd i safle mwy priodol.

Cadair Eisteddfod 2015 Teimlwyd bod gwir angen cryfhau ail ran yr eisteddfod, sef yr adeg wedi i blant yr ysgolion cynradd fynd adref. Felly, mae'n fwriad ceisio denu mwy o gorau i gystadlu eleni, gan fod cystadleuaeth gorawl fywiog yn sicrhau penllanw teilwng i'r noson o gystadlu. Hefyd, mae'r pwyllgor yn ymwybodol o'r ffaith bod aelodau'r corau mor aml yn cystadlu ar eitemau eraill fel unawdau, deuawdau ag ati. Gobeithir eu gweld yn mentro ar eitemau fel y Llinell Goll, hefyd. Cytunwyd mai cysylltu yn bersonol gydag unigolion, partïon ac ysgolion yw'r ffordd i ddenu mwy o gystadleuwyr.

Penderfynwyd sefydlu Gwefan ac i ddatblygu cysylltiadau drwy'r cyfryngu cymdeithasol eraill, ar y Weplyfr a Thrydar. Cytunwyd y dylid llunio logo priodol.

Beth, felly, am ymuno â'r criw ymroddgar hwn? Mae croeso yn eich disgwyl os hoffech droi i mewn i'r cyfarfod nesaf yn festri Bethel, Heol Nantgarw, Caerffili, nos Fercher y 13eg o Ebrill. Byddwn yn bwrw ati am 6:30.

Brwydr y Brechdanau



Cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gynharach eleni mai ond 1% fyddai'r codiad yn nhreth y cyngor am y flwyddyn 2016 - 2017. Mae'r codiad llawer iawn yn is nag a ddisgwyliwyd ar un adeg, ac roedd y cyngor hefyd yn hawlio iddynt gyflawni hyn tra, ar yr un pryd, yn gwarchod cyllideb yr ysgolion. Mae tua thraean o wariant y cyngor yn mynd yn uniongyrchol i gyllid ein hysgolion.

Ond mae rhai o'r gwrthbleidiau yn amau dilysrwydd y datganiad hwn, gan fod y cyngor nawr am godi tâl ar blant sydd yn dod â'u cinio eu hunain i'r ysgol. Sail hyn yw bod darparu cyfleusterau ar gyfer plant sy'n dod â brechdanau i'r ysgol yn costio. Y gost yw cyflogi "mamau cinio" i oruchwylio'r plant hyn, i glirio ar eu holau ac i osod byrddau a chadeiriau yn ôl yn eu lle. Amcangyfrifir bod hyn yn costio tua £2,000 y flwyddyn. Rhan o ymgais y

cyngor oedd hyn i arbed £9 miliwn er mwyn cadw'r codiad yn nhreth y cyngor cyn lleied a bo modd.

Dadl y gwrthbleidiau yw nad yw cyllideb yr ysgolion felly wedi'i diogelu. Ydyn, mae'r ysgolion yn derbyn yr un faint o arian ond mae galw arnynt bellach ddod o hyd i arian i dalu am y gwasanaeth hwn o'r newydd.

Mae'r gost o redeg ysgolion yn syndod o uchel. Mae'n costio, ar gyfartaledd, bron i £2,500 y flwyddyn i gadw pob un plentyn sydd mewn ysgol gynradd - a'r gost yn fwy, wrth gwrs, yn yr ysgolion uwchradd. Ac mae cyllideb ysgol gymedrol ei maint felly yn gallu bod dros hanner miliwn o bunnau'r flwyddyn. Ydy hi'n ormod felly gofyn i'r ysgolion am £2,000 allan o swm mor sylweddol?

Fel y gall unrhyw un sy'n gwasanaethu ar Fwrdd Llywodraethol ysgol, neu sy'n gysylltiedig ag ysgolion mewn unrhyw ffordd, ddweud wrthyh chi, ychydig iawn o'r arian hwn y mae'r ysgolion yn gallu ei reoli mewn gwirionedd. Oherwydd mae costau cyflogi athrawon, prifathrawon, gweinyddesau, cynorthwyr ystafell ddosbarth, staff gweinyddol ag ati yn llyncu trwch y gyllideb. Ar ben hyn does fawr o ddewis gan ysgolion o ran talu biliau trydan, gwresogi, cynnal a chadw, treth y cyngor, costau glanhau ac yn y blaen. Mae hyn wedyn yn gadael canran fach ar gyfer prynu llyfrau, papurau a deunyddiau arall. Gofid arall sy'n codi o'r cynigion hyn, yn ôl y gwrthbleidiau, yw y gellid peryglu swyddi'r bobol sy'n ymgymryd â'r gwaith o oruchwylio'r "plant brechdanau". Mae'r rhain ar gyflog bach ac mae rhyw 140 ohonynt yn y sir..

Mae hyn wedyn yn codi'r cwestiwn: o ble daw'r arian i dalu am warchod "plant brechdanau"? Prin fod gan unrhyw ysgol swm o'r fath yn eistedd yn segur yn ei chyfrif. Eto, mae'r cyngor yn datgan nad ydynt yn rhagweld ysgolion yn trosglwyddo'r gost i'r plant a'u rhieni. Efallai bydd yr ysgolion yn gweld bod y gost a'r drafferth o gasglu'r arian hyn yn fwy o faich nag o werth.

Gobeithiwn na fydd y gost yn disgyn ar deuluoedd yr ardal. Gellir dadlau bod y plant mwyaf difreintiedig â hawl i ginio rhad. Ond rhaid cofio bod nifer o deuluoedd sy'n ennill ychydig yn ormod i allu manteisio ar hyn ond eto yn ei chael hi'n anodd dod â dau ben llinyn ynghyd o wythnos i wythnos ac o fis i fis.

Mae pawb yn sicr yn gobeithio na fydd y baich ariannol hwn yn syrthio ar ysgwyddau plant yr ardal hon, yn enwedig o gofio mor dlawd yw rhai o'n cymunedau. Mae'r cyngor yn ein sicrhau nad oeddent yn rhagweld hwn yn dod yn "Dreth Brechdanau" fel hyn, ond erys y cwestiwn: o ble daw'r arian?

Ysgrifennwch at y golygydd i fynegi eich barn, byddai'n ddiddorol cyhoeddi ambell lythyr ar y pwnc.

Colofn Dafydd Islwyn

Sawl rhifyn yn ôl soniais am englyn digri buddugol y Genedlaethol, Caerffili, 1950. Y testun oedd “Caws Caerffili” a dyma'r englyn buddugol:

Y lwyd dlos wedi'r nosi – a droediai'n
Lladradaidd i'r pantri;
Mynd i'r trap fu'i hanhap hi –
Ffolodd ar gaws Caerffili.

Ei awdur oedd Myfyr Môn, Richard Rowlands (1875-1956) newyddiadurwr o Ynys Môn. Yng nghystadleuaeth yr englyn “Ceiliog y Gwynt” yn ôl y beirniad, Gwenallt, cafwyd tri englyn digri. Dyma un ohonynt:

Tyst y gwynt distaw ei gorn – o dylwyth
Rhode Island neu Leghorn:
I'w fol tra ar gyfeiliorn
Nid yw yn cael Indian corn.

Cafwyd 117 englyn yng nghystadleuaeth yr englyn digri ac meddai'r Parchedig G. Ceri Jones, Clydach, Cwm Tawe, y beirniad, am 101 ohonynt “..... mae eu digrifwch yn nodedig am nad ydyw.”

Ddechrau mis Hydref y llynedd bu farw D. J. Jones, Llanbedrog, Gwynedd. Enillodd ef deirgwaith yn y Genedlaethol am englyn digri. Y tro cyntaf oedd yn Y Barri 1968 a'r testun oedd “Banana”.

Anlwcus! O flaen y local – syrthiais
Yn swrth ar un feddal;
Syndod i'r Duwdod oedd dal
Hen Sant yn horisontal.

Englyn ysgafn a gafwyd yn Abergwaun a'r Fro 1986. Y testun oedd “Yr Hipi” a'r beirniad oedd T. Llew Jones. Derbyniwyd 75 englyn. Englyn T. J. Harris, Rhymni, enillodd y wobr o bedwar deg punt.

Dim gaffer, dim hwteri, - a dim c'wilydd
Dim coler, dim trethi.
Dim “manners” na dim ynni,
Na dim un nod am wn i.

Onid yw Englyn Ysgafn yn well enw i'r gystadleuaeth nag Englyn Digri? O glywed yr ansoddair “digri” mae rhywun yn disgwyl darllen englyn sy'n mynd i wneud iddo chwerthin yn iachus. Dros y blynyddoedd, prin y mae rhywun wedi codi gwên wrth ddarllen englynion digri buddugol y Genedlaethol. Onid yw'n hen bryd dileu'r gystadleuaeth o Restr Testunau'r Genedlaethol? Nid cystadleuaeth eisteddfodol yw'r lle i nifer cynyddol o eisteddfodwyr, tasg ar gyfer Ymryson y Beirdd ydy'r englyn ysgafn, gan ei bod yn ymateb yn unionsyth i'r ysgafnder a fynegir. Mae tri englyn yn dod yn syth i'r cof. Englyn Tim Maes Pebyll Caernarfon 1979 i “Jac Codi Baw”:


Heddiw pwdodd y Padi – Bijibars!
Heb ei job mae'r nafi
Ac i graen rhoed pedigri
Pencampwr Ponciau Wimpey!

Ers blynyddoedd bellach mae'n arferiad gan Barddas gyflwyno tlysau enillwyr y Gymdeithas cyn yr Ymryson yn y Babell Lân. Yn y Bala yn 2009 disgynnodd Tlws yr Ysgolion Uwchradd o ddwylo Dai Rees Davies, y Cadeirydd, gan chwalu'n dri darn! Wrth ateb y bedwaredd dasg yn Ymryson Dydd Iau, y 6ed o Awst 2009 rhwng Maldwyn, Gweddill Cymru ac Ynys Môn,, tasg yn cynnwys yr ymadrodd “er mwyn dyn” mewn englyn, meddai Myrddin ap Dafydd, Gweddill Cymru,





Posau'r Plant *gan Mary Jones*

Pa ddwy Wningen Basg sydd yr un peth?



Allwch chi ddod o hyd i'r NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



Ydych chi'n gallu trefnu'r llythrennau uchod i wneud geirfa am y Pasg?

liwaugy nwneginc clodies uway sgap angwywn thyn

Ewch i'r dudalen gefn i weld a oeddech chi'n iawn.

Colofn Dafydd Islwyn (parhad)

Pasiwch y tlws yn un pishyn – un brau
I wobrwyo rhywun;
Peidier ymddiried wedyn
Ym mhawen Dai, er mwyn dyn.

Fe ddeallodd y gynulleidfa yr ergyd yn syth.

Yn yr un modd cynulleidfa yn yr Ymryson ym Meifod, Dydd Mercher y 5ed o Awst y llynedd pan ddywedodd Gwilym Fychan, Maldwyn ei englyn yn cynnwys y gair “golff”,

Un Sul fe ofynnais i Ann – a'i gwell
Gem o golff neu gusan?
Fel bu ces ateb buan,
Liw nos fe ges hól 'in wan'.

Fy Mlog o Dde America (Rhan 1)

gan Gareth Williams

Gwn pa mor affwysol o boring y gall pobl yn siarad am eu gwyliau fod, ond fe wna i ngorau i gadw eich diddordeb, onest!

Roedd mynd ar fordaith ar y Marco Polo o Fryste i Dde America ac yn ôl yn llai o wyliau ac yn fwy o antur i mi a Pat y wraig. Roedd yn rhaid rhoi i fyny â lot o rwtsh ar fordaith ffug-grand er mwyn ticio lot o focsys ar y ffordd. Fum i erioed yn ffan o wisgo dici bo a chael gosod napcyn ar fy nglin cyn bwyta, ond hei ho, weithiau mae'n rhaid.

I ddelio â thipyn o'r rwtsh i ddechrau: roedd y rhan fwyaf ohono yn deillio o'r ffaith mai dim ond pobl hŷn, fel fi, sydd â'r amser a'r arian i fynd ar daith dros y môr am ddau fis yn y gaeaf, (SKIo – Spending Kids Inheritance yn ôl fy merch,) a'r ffaith bod llawer ohonyn nhw wedi penderfynu dod ar ôl gweld y pris rhesymol mewn hysbyseb yn y Daily Mail a dod â rhai o'r agweddau llai apelgar sy'n cael eu coleddu gan y papur hwnnw i'w canlyn. Mae llong o ryw wyth cant o deithwyr a dau gant a hanner o weithwyr (y rhelyw o'r Iwcrain a Myanmar) ynghyd â llawer o ddyddiau eitha undonog ar y lli yn gallu bod yn gostrel effeithiol er mwyn arddangos rhagfarnau a chwyddo rhyw genfigenion bychain yn faterion ysgytwol. Bu sawl maes cyflafan ger yr wrn dwr poeth pan fyddai ambell un yn dyncio'i gwdyn te braidd yn rhy llafurus yn ôl y person nesaf i ddod at y tap, ac yn y theatr pan oedd teithiwr rhy dalog yn andwyo golwg teithiwr arall o'r sioe. Roedd brwydrau zimmer yn eithaf cyffredin! Wrth sôn am de, bu cryn drallod pan glywyd si bod te Earl Grey yn brin. Diflannodd y cyflenwad yn sydyn ynghyd â'r cyflenwad newydd a ddarparwyd. I ble, wel, i goffrau te cudd mewn sawl caban wrth gwrs. Wedyn roedd prinder go iawn. Mae swigen fach

o ddiogelwch yn hwylio'n deg ar ganol yr Iwerydd yn lle da i fagu sïon. Ceisiais ledaeni'r si bod prinder o bapur tŷ bach ond diolch i'r drefn, ni ddaeth prinder yn y cyflenwad. Gwall yw meddwl bod henaint bob amser yn dod â doethineb. Ond cwrddais â llawer o bobol wych, rhai, rwy'n hyderu, fyddant yn gyfeillion am oes wedi bod yng nghwmni ein gilydd i un o bedwar ban byd.

Roedd y staff yn wych, bron bob un er y traul ar eu hamynedd yn feunyddiol oherwydd diffyg diolch, cydnabyddiaeth na gwerthfawrogiad gan sawl un. Wedi'r cwblw roedden nhw'n cael eu talu i fod yn weision ufudd i ni! 638 ewro y mis oedd ar fonyn tâl welais i gan un o'r gweinyddion gan gynnwys tips, a hynny am weithio o fore gwyn tan nos, saith diwrnod yr wythnos; yn llawer llai na'r isafswm cyflog ym Mhrydain. Wedi dweud hyn, siaradais ag un weinyddes a ddwedodd mai 400 ewro oedd ei chyflog fel cyfrifydd yn ôl yn yr Iwcrain. Ai dyma'r ffordd mae'r hen fyd economaidd yma'n gweithio? Mordaith rad i ni a chyflog tila iddyn nhw, er bod hwnnw'n ffortiwn iddyn nhw gartref. Dysgais ddweud diolch iddyn nhw mewn saith gwahanol iaith a chwarae teg, roedd sawl un yn defnyddio 'shwmai a 'iawn' yn gredadwy iawn erbyn diwedd y daith, a Phyo o Myanmar yn feistr ar holi 'Ti'n go lew?' Gofynais y cwestiwn i mi fy hun lawer gwaith: ai gobeithio am gildwrn ychwanegol pan fyddem ni'n gadael oedden nhw, neu oedd ofn arnyn nhw gael eu dal ddim yn bod yn bobol neis gan reolwyr oedd yn llym ar y naw ar adegau, yn bygwth rhoi terfyn ar eu contract neu oedden nhw jest yn bobol neis beth bynnag?

Dw i'n amau mai'r opsiwn olaf oedd yn wir.

O ie, y daith. Doedd pethau ddim yn argoeli'n dda pan fu'n rhaid i ni adael o Southampton yn hytrach nag Avonmouth yn sgil y tywydd garw gawson nhw yn dychwelyd o'r daith flaenorol. Roedd caeadau yn dynn ar y portyllau a bagiau cyfog wedi eu dotio rownd y lle, rhag ofn, a wir i chi wnaeth Bae Biscay ddim ein siomi. Fe wnaethon ni ddigon o hyrddio o don i don i bara i ni am y daith i gyd a bu digon o ddefnydd o'r bagiau.

La Coruña oedd y porthladd cyntaf a phawb yn ddigon balch o gael eu traed ar dir sych, er bod hwnnw'n dal i symud wedi deuddydd o hyrddio ar y weilgi. Faswn i ddim yn sôn am y ddinas ddigon cyffredin hon a welsom ar dywydd gwlyb, heb law am



Dau o'r teithwyr glew oedd yn gymdogion, Brenda yn dioddef o glefyd Parkinsons (89) a'i gofalwr (ei gŵr Henry sy'n 92.) Ddim yn ddau o'r rhai sur! Maen nhw'n dal ar y cwch ar eu ffordd i'r Caribi. Hei lwc!

un digwyddiad eironig. Ar y daith gyntaf a drefnwyd i'r teithwyr o'r llong i Santiago de Compostela sy'n gyrchfan pererindodau i Gatholigion o dros y byd, wrth bwysu ymlaen i gyffwrdd ag un o'r creiriau sydd yn y gadeirlan gan obeithio am iechyd a hir hoedl i ddeillio ohono, cwmpodd un fenyw a thorri ei chlun. Ddychwelodd hi ddim i'r llong. Hi oedd y gyntaf. Bu farw wyth o bobl yn ystod y daith a chlodwyd sawl un arall i ysbytai yn Ne America. Gyda chyfartaledd oedran tua 75 efallai nad oedd ond ei ddisgwyl. Sicrhewch yswiriant digonol bobol, neu bydd angen pocedi dyfnion iawn arnoch chi! Wedi dweud hyn rhaid llongyfarch rhai mor oedrannus am fod mor lew a mentro i diroedd mor bell.

Ymlaen i Grand Canaria, sy'n ddigon cyfarwydd i lawer ohonoch ac wedyn i Mindelo, un o ynysoedd Capo Verde a chael blas o Affrica ond 'Affrica light' fel y disgrifiodd un o'm cyd-deithwyr. Hwn oedd y profiad cyntaf i sawl un o weld tloedi a moethusrwydd yn cydfyw mor agos. Pysgotais i o'r cei. Ddaliais i ddim byd. Roedd trigolion yr ynys yn llawer mwy llwyddiannus yn ôl tystiolaeth y farchnad bysgod.

Roedd taith o bedwar diwrnod ar fôr Iwerydd yn ein haros a'r cyfle cyntaf i roi un o'r tics yn ei focs. Croesi'r cyhydedd oedd hwnnw. Trueni fod rhywun wedi cyrraedd yno gyntaf a golchi'r llinell goch i ffwrdd!


Diolch i Gareth Williams, Nelson, am rhannu gyda ni ei antur fordeithiol gyda Pat ei wraig.

Edrychwn ymlaen i ddarllen mwy o hanesion yn ystod yr Haf.



DIC PENDERYN 1808-1831


I Ann Friend mae'n diolch ni y mis hwn am draethawd ar hanes Cymru sy'n rhan o brosiect ar gyfer dysgwyr hyfedredd uwch yng Ngholeg Gwent.



Digwyddodd terfysg Merthyr ym 1831. Roedd e'n uchafbwynt treisgar wedi blynyddoedd o aflonyddwch ymhlith poblogaeth gweithwyr Merthyr Tudful a'r cyffiniau. Ro'n nhw'n protestio yn erbyn cyflogau isel a diweithdra. Gwasgarodd y brotest i drefi a phentrefi cyfagos. Erbyn diwedd mis Mai roedd yr ardal i gyd yn gwrthryfela ac am y tro cyntaf yn y byd hedfanwyd y faner goch chwyldro. Ar ôl ymdeithio tu fas i dre Merthyr dinistriodd y gwrthryfelwyr fanylion pobl mewn dyled yn crio 'caws a bara' a 'i lawr â'r brenin'.

Ar Fehefin y cyntaf perswadiwyd glowyr lleol i stopio gweithio ac ymuno â'r brotest gyda'r gwrthryfelwyr. Gorchmynodd llywodraeth Prydain y fyddin i fynd i Ferthyr i adfer trefn yn y dre. Roedd y dyrfa yn rhy fawr felly amddiffynnodd y milwyr adeiladau a phobl. Am bedwar diwrnod roedd yr ynadon a'r meistri haearn dan warchae yng ngwesty'r Castell achos bod y protestwyr yn rheoli Merthyr. Erbyn y seithfed o Fehefin llwyddodd yr awdurdodau i gymryd rheolaeth yn ôl. Cafodd 26 o bobl eu harestio. Aeth rhai ohonyn nhw i'r carchar. Cludwyd rhai i Awstralia a dedfrydwyd Dic Penderyn i gael ei grogi.

Cafodd Dic Penderyn ei eni yn Aberafon a symudodd e i Ferthyr ym 1819. Gweithiodd e a'i dad ym mhyllau glo'r ardal. Roedd e'n llythrennog achos fod e'n arfer mynd i'r Ysgol Sul. Priododd e chwaer y pregethwr Morgan Howells. Ymunodd e â'r terfysg a chafodd ei arestio gyda'i gefnder Lewis Lewis. Cludwyd Lewis i Awstralia ond dedfrydwyd Dic i gael ei grogi. Cyhuddwyd e o



anafu milwr o'r enw Black gyda bidog ar ben gwn. Doedd niweidiau Black ddim yn ddifrifol. Roedd pobl Merthyr yn amau ei euogrwydd a llofnododd dros 11,000 ohonyn nhw ddeiseb i'w ryddhau. Ro'n nhw'n aflwyddiannus. Perswadiodd Joseph Tregelles Price, crynwr o Gastell Nedd, yr awdurdodau i oedi gweithredu'r ddedfryd am bythefnos. Yn anffodus, roedd y barnwr eisiau bwch dihangol. Cafodd Dic ei grogi tu fas i garchar Caerdydd. Roedd e'n dair blynedd ar hugain oed. Ei eiriau olaf oedd 'O Arglwydd dyma gamwedd'. Teithiodd mil o bobl i'w fedd yn eglwys St Mair, Port Talbot.



Ym 1874 cyfaddefodd Ianto Parker ar ei wely angau mai fe gyflawnodd y drosedd. Aeth e i'r Unol Daleithiau i osgio cael ei ddal. Hefyd cyfaddefodd James Abbot iddo ddweud celwyddau ar lw.

Ym 1966 rhoddwyd plac gan undebau llafur ar fynedfa Marchnad Caerdydd. Cafodd y mudiadau undebau llafur eu cryfhau gan ei farwolaeth.

Ym 1972 ysgrifennodd Alexander Cordell 'The Fire People' – stori gyda'i chefnidir yn ystod Terfysg Merthyr. Roedd y llyfr wedi creu diddordeb yn yr achos.

Ym 1977 rhoddwyd cofeb yn Llyfrgell Merthyr Tudful gan Ysgrifennydd Cyffredinol y TUC.

Llywelyn Bren



Gyferbyn ag eglwys Gelligaer a thu ôl i'r hen swyddfa bost, yng ngerddi'r tai y mae olion Twyn y Castell. Dim ond y domen sydd i'w gweld erbyn hyn a honno wedi ei gorchuddio â choed a mieri, ond y mae'n sicr taw olion castell Cymreig sydd yma, rhan o eiddo Arglwyddi Senghennydd, Ifor Bach (Ifor ap Meurig) a'i ddisgynyddion, ac fe gysylltir y castell gyda'r enwog Llywelyn Bren, (Llywelyn ap Gruffudd), a gododd wrthryfel yn erbyn annhegwch yr uchel swyddogion Seisnig yn 1316.


Bu'n anodd iawn i'r Eingl - Normaniaid oresgyn Arglwyddi Senghennydd yn dilyn llwyddiant y Normaniad yn 1066, ac fe arhosodd tiroedd y de - ddwyrain yn nwylo'r Cymry am ganrifoedd, ond erbyn 1316 roedd y sefyllfa wedi newid, ac roedd

llawer o diroedd Morgannwg yn nwylo Gilbert de Clare.


Hen, hen dadcu Llywelyn Bren oedd Ifor Bach, a'i dad oedd Gruffudd ap Rhys. Tynnwyd Arglwyddiaeth Senghennydd oddi wrth Gruffudd gan Gilbert de Clare yn 1267. Serch hynny roedd Llywelyn Bren yn eiddo ar diroedd eang yn Eglwys Newydd ac yn ardal Eglwyswladus, Gelligaer. Erys rhestr o'i eiddo pan gipiwyd ei diroedd gan y Goron yn dilyn gwrthryfel 1316 ac fe welir bod ganddo lawer o wartheg, defaid, ceffylau, geifr a moch ymhlith ei eiddo. Roedd yn berchen hefyd ar nifer o lyfrau, gan cynnwys llyfrau Cymraeg, Ffrangeg a Lladin ac fe gedwir rhai o'i lyfrau yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth hyd heddiw. Priododd Llywelyn â Lleucu ac roedd ganddynt o leiaf saith o blant a fu hefyd yn ran o'r gwrthryfel.

Ar ôl marwolaeth Gilbert de Clare ym mrwydr Bannockburn yn 1314, gwaethygodd y sefyllfa yn y de - ddwyrain, ac fe apwyntiodd brenin Lloegr Edward yr Ail, Payn de Turberville i oruchwylio tiroedd Morgannwg. Roedd ei reolaeth yn llym a chreulon a hyn mewn cyfnod o newyn, ac fe gododd y werin yn ei erbyn. Cefnogodd Llywelyn Bren y werin bobl ac fe'i cyhuddwyd o frad yn erbyn y goron. Ymosododd Llywelyn Bren ar gastell Caerffili ar Ionawr 28, 1316 gan gipio'r Cwnstabl. Ymledodd y gwrthryfel ac fe gipiwyd cestyll Cynffig, Llantrisant a Dinefwr, ymhlith eraill, ond mewn brwydr yng Nghastell Morgraig (wrth ymyl y 'Traveller's Rest' (ar fynydd Caerffili), fe orfodwyd y Cymry i roi'r gorau i'w gafael ar Gastell Caerffili a bu raid iddynt ddianc i diroedd uchel Morgannwg.

Pan welodd Llywelyn anobaith y sefyllfa penderfynodd ildio, ac ildiodd i'r Saeson gyda dau o'i feibion yn Ystradfellte ar Fawrth 18, gan bledio mai fe yn unig a ddylai gael ei gosbi ac nid ei ddilynwyr. Anfonwyd Llywelyn yn gyntaf i Aberhonddu ac yna i dŵr Llundain ynghyd â'i wraig a'i deulu. Am ei ddewrder plediodd Roger Mortimer a Iarll Henffordd am bardwn iddo, ac o ganlyniad dangoswyd trugaredd gan Edward yr Ail i nifer o ddilynwyr Llywelyn. Serch hynny rhoddwyd Llywelyn yn nwylo creulon Hugh Despenser yr Ifanc ac fe laddwyd Llywelyn yn anghyfreithlon drwy ei hongian, ei gwarteri a thynnwyd ei berfeddion allan. Carcharwyd ei wraig Lleucu a rhai o'i feibion yng Nghaerdydd. Ar ôl arddangos darnau o'i gorff drwy'r wlad fel enghraifft o frad, claddwyd ef ym mhriordy y Brodyr Llwydion yng Nghaerdydd. Wrth gerdded ar hyd y stryd honno, cofiwch amdano.



Eirlys Ashton



Ysgol Gymraeg Cwm Derwen



Eisteddfod Ysgol


Ddydd Gŵyl Dewi cynhaliwyd ein heisteddfod ysgol flynyddol. Dathlwyd llwyddiant aruthrol drwy gydol yr ysgol. Cafodd pawb y cyfle i gystadlu mewn amrywiaeth o wahanol gystadlaethau. Roedd cyfle i'r disgyblion adrodd, canu, lliwio, ys-grifennu neu ddarlunio. Sicrhawyd fod cystadleuaeth at ddant pawb fel bo'r diwrnod yn llawn hwyl, adloniant a dathlu. Enillwyd cadair Eisteddfod Ysgol Cwm Derwen 2016 gan Tatum ym mlwyddyn 6 am ei hymson o Martin Luther King.

Eisteddfod Gylch a Sir

Braint oedd cael cymryd rhan yn yr eisteddfod Gylch eto eleni yng Nghwm Rhymni. Dathlwyd llwyddiant y parti unsain a'r grŵp llefaru. Llongyfarchiadau i Gruff o flwyddyn 6 am ei berfformiad gwych yn yr eisteddfod offerynnol. Braf iawn yw llongyfarch y grŵp llefaru am ddod yn 2il yn yr eisteddfod Sir. Da iawn chi.

Clybiau

Rydym wedi bod yn brysur iawn y tymor yma drwy gynnal amrywiaeth o wahanol glybiau. Rhoddwyd cyfle i'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau megis Celf a Chrefft, Coginio, Chwaraeon a pharatoadau ar gyfer yr Eisteddfod Gylch a Sir. Roedd y disgyblion wrth eu bodd yn coginio bwydydd o wahanol wledydd. Mae'r clybiau ar gael i holl ddisgyblion ein cyfnod allweddol 2.



Gweithdai Cerddorol

Rydym yn ddiolchgar iawn i Mrs Morris-Evans yn ein hysgol sydd wedi trefnu digwyddiadau cyffrous iawn dros yr ychydig wythnosau diwethaf. Rydym wedi bod yn ddigon ffodus i dderbyn ymweliad gan gan fyfyrwyr cerddoriaeth o Gaerdydd sydd wedi ein diddanu gyda gweithdai drymio ac yna rhoi perfformiad i'r ysgol gyfan. Cawsom hefyd weithdai gan fyfyrwyr opera a pherfformiad anhygoel o 'Dirty Beasts' gan Roald Dahl. Cynhaliwyd gweithdai i ddisgyblion cyfnod allweddol 2.



Rhaglen Cyw



Daeth rhaglen Cyw ar ymweliad ag Ysgol Gymraeg Cwm Derwen yn ddiweddar i ffilmio eitem ar gyfer eu rhaglen newydd, 'Cacamwnci'. Cafodd disgyblion blwyddyn 3 y cyfle i ddweud jôcs wrth eu ffrindiau. Cofiwch wyllo'r rhaglenni i weld os gwelwch chi wynebau cyfarwydd



Picnic Wil Wirion Bôst

Thema blwyddyn 1 yn nhymor y Gwanwyn oedd Alys Hudolus. Roedd y disgyblion yn brysur iawn yn dilyn Alys a'i ffrindiau drwy'r hudol fyd. I ddathlu'r thema ac i longyfarch gwaith caled y disgyblion trefnwyd picnic yn neuadd yr ysgol. Estynnwyd gwahoddiad i'r rhieni ac roedd y plant yn brysur iawn yn paratoi gwledd o bicnic i'r rhieni. Braff oedd gweld y plant a'r rhieni yn gwneud ymdrech i ddod i'r picnic yn eu gwisg orau.

Newyddion

Rydym yn falch o gyhoeddi bod ein pwyllgor ECO wedi derbyn ein hail faner werdd. Derbyniwyd hefyd ein 5ed deilen am fod yn ysgol iachus. Hoffai'r ysgol ddiolch i Mr Witts am ei ymroddiad i'r ysgol ac am ein helpu i blannu ein Cennin Pedr eleni. Diolch hefyd i'r cyngor am ddod draw i blannu coed afalau.

Rydym yn falch iawn o groesawu Jessica Jones, athrawes newydd i flwyddyn 4.

Cofio Rhian Hughes



Hedfanodd bron hanner canrif heibio ers pan symudodd Tom ac Enid Hughes i fyw yn Nhŷ Isaf, Caerffili. Roedd Tom yn enedigol o Langrannog ac yn gweithio i'r Swyddfa Gymreig fel Arolygwr Cynllunio Gwlad a Thref, tra bod Enid yn nyrs wrth ei galwedigaeth ac wedi gweithio mewn amryw o ysbytai a chartrefi gofal. Ganwyd iddynt dri phlentyn, yr efeilliaid, Rhian a Gareth ac yna Dylan, a oedd ond ychydig flynyddoedd yn ieuengach. Bydd amryw yn siwr o gofio Dylan fel chwaraewr rygbi arbennig, a gafodd gap rhyngwladol dan 18 oed. Ymsefydlodd y teulu yn eglwys Bethel, Caerffili ac aeth y tri phlentyn i Ysgol Ifor Bach, Senghennydd ac Ysgol Gyfun Rhydfelen. Cawsant amser braf yno ond bylchwyd eu teulu pan bu farw Tom a oedd ar ei ffordd i wrandawriad cynllunio yn Abertawe, ac yntau yn ei bumdegau cynnar.

Yn rhyfedd, roedd Rhian tua'r un oed pan fu farw hithau yn yr Alban, ar ddechrau mis Ionawr eleni, yn ei gwlad fabwysiedig. Er ei bod wrth ei bodd yn yr Alban, roedd pawb a'i hadnabu ar hyd y blynyddoedd yn gwybod mai Cymraes oedd Rhian a Chymraeg oedd ei hiaith gyntaf. Gadawodd Rydfelen heb fynd drwy'r coleg gan ddewis cwrs busnes iddi hi ei hun ac yna derbyn swydd gyda chwmni General Accident. Roedd yn drefnydd wrth reddf ac yn meddu ar lawer o ddoniau fel cerddor ac ym maes cynllunio gwaith crefft. Roedd ganddi lais hyfryd, a medrai chwarae'r piano a'r delyn. Mwynhaodd fywyd yn Perth ac yng Nghaeredin gan gyfarfod ei chymar Lance Kirkaldy yno, ac ymhen y rhawg, bu iddynt briodi yng Ngwlad y Thai.

Roedd Gareth wedi ymfudo i Awstralia i weithio ac yna symud eto i Wlad y Thai lle mae wedi sefydlu cwmni busnes iddo'i hun. Byddai Rhian yn hoff o deithio ar draws y byd, ac yn arbennig o hoff o wlad fabwysiedig ei hefaill. Sefydlodd gwmni ei hun, yn cynllunio a gwerthu gwaith crefft, gan drefnu allforio'r nwyddau hyn yn ôl i Brydain a gwledydd eraill. Cofiwn amdani fel merch ystyrlon o deimladau ac anghenion pobl eraill, yn annwyl ei gwedd ac yn wylaidd wrth natur.

Roedd yn em o berson a diolchwn am y fraint o'i hadnabod.

Denzil John

Ar y 30 Mawrth eleni fe ddaeth y set cyntaf o safonau'r Gymraeg yn weithredol. Y safonau hyn sy'n dweud beth ddylai sefydliadau ei wneud yn Gymraeg.

Mae'r safonau'n creu hawliau newydd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Cynghorau sir, Llywodraeth Cymru a'r parciau cenedlaethol yw'r sefydliadau cyntaf i weithredu'r safonau. Dros amser fe fyddant yn cael eu cyflwyno i sefydliadau a sectorau eraill, mewn meysydd fel iechyd, addysg ôl-16, trafnidiaeth cyhoeddus, ynni, gwasanaethau post, tai cymdeithasol, telegyfathrebu a llawer mwy.

Mae safonau'n seiliedig ar gyfraith gwlad; ac mae dyletswydd ar sefydliadau i gydymffurfio â nhw. Dylent roi ffydd i chi y gallwch ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau sy'n gweithredu safonau. Os nad ydych wedi gallu derbyn gwasanaeth Cymraeg boddhaol ganddynt, cysylltwch â mi i gwyno.

I ddysgu mwy am eich hawliau ewch i'r dudalen 'Hawliau i Ddefnyddio'r Gymraeg' ar wefan **comisiynyddygyymraeg.cymru** a dilyn a defnyddio #hawliau ar y rhwydweithiau cymdeithasol. Mae croeso i chi hefyd gysylltu â ni ar y ffôn neu'n ysgrifenedig (manylion islaw).

Os ydych yn ysgrifennydd neu'n drefnydd grŵp neu fudiad cymunedol ac yn dymuno fy mod i neu un o'm swyddogion yn dod i siarad am eich hawliau iaith, yna mae croeso mawr i chi gysylltu ac fe drefnwn ymweliad.

Yn gywir,

Meri Huws (Comisiynydd y Gymraeg)

post@comisiynyddygyymraeg.cymru / 0845 6033221

Natasha Harding

Merch yn wreiddiol o bentref Penpedairheol yw Natasha Harding. Aeth i Ysgol Gynradd Gymraeg Gilfach Fargoed lle'r oedd hi'n serennu ar y cae chwarae ac yn enwedig ym myd y bêl gron.



Amlygwyd ei doniau naturiol chwaraeon ymhellach yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Roedd hi'n arbennig ymhob camp wrth gynrychioli'r ysgol mewn pêl droed, pêl rwyd, hoci, athletau ac yn arweinyddes naturiol. Derbyniodd fest ysgolion athletau Cymru gyda'r naid driphlyg. Mi fydd ei chyn-athrawon a'i ffrindiau yn ei chofio fel merch hynod boblogaidd oedd wastad yn fyrlymus.

Mae trefnydd timau pêl-droed merched yr ysgol Mr Tony Wilding yn cofio'n dda'r achlysur bu raid iddo geryddu Natasha gyda gwên ar ei wyneb. Mewn gêm bêl-droed cwpan ysgolion llwyddodd Natasha i gyflawni medr arbennig wrth dwyllo dau wrthwynebydd gyda'r hyn y byddai arbenigwyr technegol y gêm (neu'r 'pundits' ar *Match of the Day*) heddiw yn galw 'rainbow flick'. Siwr taw cenfigen oedd wrth wraidd y cerydd gan na all Mr Wilding wneud yr un gamp hyd heddiw!

Er ei dawn naturiol ym mhêl droed ni chwaraeodd gyda thîm go iawn y tu allan i'r ysgol nes i'r darpar athrawes Miss Gwenan Harries gychwyn ei chyfnod o ymarfer dysgu yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a'i gwahodd i chwarae fel blaenwr dros Cardiff City Ladies yn 2007. Wrth chwarae yng Nghaerdydd, astudiodd tuag at radd addysg gorfforol yng ngholeg UWIC yng Nghyncoed a hefyd cynrychioli tîm prifysgolion Prydain mewn pencampwriaeth yn Tsiena. Yn dilyn cyfnod llwyddiannus iawn yn gapten ar dîm merched y brif ddinas symudodd dros Bont Hafren i ymuno ag Academi Bristol City yn uwch gynghrair Lloegr. Yn ystod ei chyfnod ym Mryste, a sgorio wyth gôl, chwaraeodd ym mhencampwriaeth nodedig Ewropeaidd y *Champions League* a chyrraedd rownd y chwarteri. Bellach felly nid Aaron Ramsey yw'r unig ddisgybl o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni sydd wedi chwarae yn uwch gynghrair Lloegr a'r Champions League!

Llynedd symudodd Natasha i Fanceinion a chwarae dros dîm uwch gynghrair arall sef Manchester City, lle dioddefodd anaf cas oedd wedi cwtogi ei thymor. Eleni mae wedi arwyddo i Lerpwl (plesio Mr Wilding, cefnogwr selog y cochion!) gan edrych ymlaen at dymor llwyddiannus dan y rheolwr newydd Scott Rogers. Mae wedi ennill 17 cap dros Gymru ond yn sicr ni fydd Natasha yn anghofio ei gêm gyntaf i'w gwlad pan sgoriodd hat tric yn erbyn Israel. Mae Natasha newydd gyhoeddi ei bod hi'n dechrau *Natasha Harding Soccer Schools* ar gyfer merched ardal Caerdydd a'r Fro.



Am nad oes gennym siop lyfrau Gymraeg yng Nghaerffili bellach mae'n werth dweud wrthyhych am siop sydd bob amser yn ceisio darparu cardiau Cymraeg. Mae siop "Nice" hefyd yn gwerthu nwyddau ag arnynt eiriau Cymraeg megis, "Cwtch" a "Cariad".

Gellir dod o hyd i'r siop yn 1 Clive Street sydd y drws nesa i dafarn y Malcolm Uphill. Gorau i gyd pa fwyaf byddwn yn prynu er mwyn annog y perchennog i stocio mwy o ddeunyddiau Cymraeg.

Annwyl Olygydd,

Byrdwn y llythyr hwn yw holi a fyddai eich darllenwyr yn fodlon ystyried dod yn aelod o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Mae llwyddiannau gweithgarwch y Gymdeithas yn y misoedd diwethaf yn cynnwys:

- Symud ymlaen â'r ymgyrch Addysg Gymraeg i Bawb ac at ddileu'r cysyniad o Gymraeg ail-iaith. Mae'r Prif Weinidog Carwyn Jones, mewn cyfarfod â'r Gymdeithas wedi cytuno â'r egwyddor fod diffyg sylfaenol yn y drefn 'Cymraeg Ail Iaith'. Bellach, mae consensws ymysg y pleidiau gwleidyddol o ran trawsnewid y gyfundrefn.
- Ar ôl degau o gyfarfodydd a llythyru, yn 2015 pasiwyd deddf yn y Cynulliad sy'n golygu statws cryfach i'r Gymraeg yn y system gynllunio
- Ymgyrchu o ran cadw cyllid y Coleg Gymraeg Cenedlaethol, rydym yn pwysu am sicrwydd tymor hir.
- Lobio trwm o ran cyllid teg i S4C: mae'r cyllid hwnnw wedi'i sicrhau am flwyddyn arall, ond rydym yn pwysu am sicrwydd tymor hir.
- Ymgyrchu i gryfhau hawliau i'r Gymraeg drwy'r 'Safonau' sy'n cael eu gosod gan Gomisiynydd y Gymraeg i wahanol sefydliadau, megis gwasanaethau iechyd a gofal, cwmnïau ffôn ac ynni.
- Cafwyd cyfarfod â chwmni Google i wthio'r Gymraeg ar agenda cwmnïau technolegol. Rydym yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i gyfarfod â nhw yn ogystal.
- Yn dilyn cyfarfodydd a llythyru, mi fydd rheidrwydd ar ganolfannau hamdden trwy Gymru sydd yn cael eu hariannu gan y cynghorau sir, o ddiwedd Mawrth ymlaen, gynnig gwersi nofio trwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â chyrsiau hyfforddiant eraill.

Mae nifer o ymgyrchoedd sy'n cael eu harwain gan ein celloedd a rhanbarthau, mae ymgyrchoedd diweddar yn cynnwys:

- Sicrhau arwyddion Cymraeg yng ngorsafoedd trên Caerdydd.
- Gweithredu i gael peiriannau hunan-wasanaeth Cymraeg ar draws Cymru.
- Pwysu'n gyson ar gyngor Sir Gaerfyrddin i weithio drwy'r Gymraeg.

Mae gwaith y Gymdeithas yn dal i sicrhau fod y Gymraeg ar yr agenda wleidyddol. Mae'r Gymdeithas yn undeb o bobol sy'n sefyll dros ein hawliau fel siaradwyr Cymraeg. Po fwyaf o aelodau sydd gan y Gymdeithas y mwyaf o glowt sydd ganddi a'r mwyaf y gall ei gyflawni. Mae gan y Gymdeithas bump o swyddogion cyflogedig. Mae gan y Gymdeithas bymtheg o swyddogion Senedd. Mae gan y Gymdeithas ddeg cell a chwech 'rhanbarth', ac rydym wrthi'n sefydlu mwy o gelloedd lleol.

Rydym hefyd wrthi'n teithio o gwmpas y wlad mewn bws ar hyn o bryd i rannu ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg o dan Lywodraeth nesaf Cymru, gallwch chi ei ddarllen yma: <http://cymdeithas.cymru/miliwn>.

Mae yna ddegau o ffyrdd y gallwn ni i gyd wneud ein rhan dros y Gymraeg. Gan obeithio fy mod wedi'ch annog i ymwroli ac ymuno, a gyda diolch am eichamser.

Yn gywir,

Heledd Gwyndaf
Swyddog Aelodaeth, Gymdeithas yr Iaith Gymraeg

I ymaelodi, ewch i <http://cymdeithas.cymru/ymaelodi>

Neu ffoniwch ni ar: 01970 624501
Neu anfon siec at: Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, Ystafell 5, Y
Cambria, Aberystwyth, SY23 2AZ



Colofn y Dysgwyr gan Ann Lewis

Pasg hapus ddarllenwyr! Yn y rhifyn diwethaf roedden ni'n edrych ar sgysiau ffôn. Wel y tro yma mae Cadwgan ap Seisyll yn gwneud galwad ffôn at y Cadeirydd. Ydych chi'n cofio penbleth Cadwgan? Roedd e'n gwybod bod Blodwen a Iestyn yn gariadon ; ddylai e ddweud wrth y Cadeirydd? O'r diwedd penderfynodd e fod rhaid dweud - ond sut?

Roedd Cadwgan ap Seisyll yn siŵr byddai dweud wrth y Cadeirydd wyneb yn wyneb yn amhosibl, felly penderfynodd e ffonio. Ar y funud olaf penderfynodd byddai e'n siarad mewn llais dieithr ac felly fyddai'r Cadeirydd ddim yn gwybod pwy oedd yn siarad. Syniad twp? Wel wrth gwrs ond Cadwgan ap Seisyll yw hwn!

Dyma'r sgwrs i chi. Gyda llaw, mae'r Cadeirydd yn gyfrifydd, yn gweithio mewn swyddfa fawr. Dydy e ddim yn gallu byw ar ysgrifennu barddoniaeth!

Derbynnydd : Bore da. Swyddfa Bleddyn a'i feibion. Ga i helpu chi?

Cadwgan: O, y, bore da. Ga i siarad â.....
(*O diar! Doedd e ddim yn cofio enw iawn y Cadeirydd!*)

Derbynnydd : Siarad â pwy os gwelwch yn dda?

Cadwgan : Wel, mae e yn yr Orsedd, mae e'n fardd.....

Derbynnydd : Reit, Mr Dafydd Jones (*diflas ond gwir!*)
Un funud os gwelwch yn dda.



Y Cadeirydd : Dafydd Jones yn siarad

Cadwgan : Mae eich gwraig yn eich twyllo chi.
Mae hi'n cario mlaen gyda Iestyn y Dysgwr.(*mewn llais gwichlyd*)

Y Cadeirydd : Cadwgan ap Seisyll!!! Beth wyt ti'n feddwl wyt ti'n neud?.....

Pasg : Easter y tro yma : this time gwneud galwad ffôn : to make a phone call
penbleth : dilemma cariadon : lovers wyneb yn wyneb : face to face gwichlyd : squeaky
ar y funud olaf : at the last minute llais dieithr : a strange voice cyfrifydd : accountant
byw ar ysgrifennu barddoniaeth : to live on writing poetry derbynnydd : receptionist
twyllo : to deceive

Beth sy'n mynd i ddigwydd nawr? Cewch weld yn y rhifyn nesaf!
Dyma ateb tasg y rhifyn diwethaf, sef gosod sgwrs ffôn mewn trefn. Hwyl am y tro!

Bore da. Swyddfa Mr Ben Jones

Ga i siarad â Mr Jones os gwelwch yn dda?

Mae'n ddrwg gen i, dydy e ddim yma heddiw. Ga i gymryd neges?

Wnewch chi ofyn i Mr Jones ffonio'n ôl os gwelwch yn dda? Fy rhif ffôn ydy 436821.

Dim problem, a diolch am ffonio.

Oedfaon Tonyfelin, Caerffili ar gyfer mis Ebrill

Ebrill 3ydd	Bore	Y Parch.. Milton Jenkins	Hwyr	Y Parch. Milton Jenkins
Ebrill 10fed	"	Oedfa Deulu	"	Y Parch. Glyn Tudwal Jones
Ebrill 17eg	"	Ym Methel	"	Ym Methel
Ebrill 24ain	"	Y Parch. Lona Roberts	"	Mr Ian Smith

MADRID - ALICANTE Chwefror 2016

gan Wendy Lewis

Gadawsom faes awyr Caerdydd i gymryd rhan yn y digwyddiadau i gofio Brwydr Jarama. Ym mis Chwefror 1937 fe ymunodd gwirfoddolwyr byd-eang â'r Brigadau Rhyngwladol i amddiffyn y llywodraeth a etholwyd yn ddemocrataidd yn wyneb gwrthryfel milwrol Franco, a oedd yn bygwth amgylchynu prifddinas Sbaen. Llwyddodd y Brigadau Rhyngwladol i atal lluoedd Franco yn Jarama, ac fe gadwyd Madrid allan o ddwylo ffasgaidd am ddwy flynedd arall; ond bu'r gost yn enfawr. Collwyd un rhan o dair o'r gwirfoddolwyr ac fe'u claddwyd yn Sbaen.

Fe gwrddon ni yn Tarancon ddydd Gwener. Chwaraeodd tair pib Andalwsaidd wrth i ni fynd drwy giatiau'r fynwent ac at y gofeb sy'n coffáu'r Albanwyr a gollwyd yn Jarama. Ymysg y baneri oedd rhai



o Gymru, yr Alban, Sbaen a'r Brigadau Rhyngwladol. Buom yn gwrandao ar ddarlenniadau, cerddi a chaneuon yno. Am y tro cyntaf, cafodd y rhai o Sbaen a ddioddefodd erchylltra Franco eu cofio ochr yn ochr â gwirfoddolwyr Albanaidd o'r Brigadau Rhyngwladol. Darllenwyd eu henwau allan bob yn ail ac fe osodwyd torchau a charnasiwns mewn seremoni wefreiddiol. Teimlem ennyd o falchder pan ymunodd y dorf, hen ac ifanc, yn Sbaenwyr a chynrychiolwyr rhyngwladol, i ganu'r *Internationale* gyda'n gilydd.

Roedd wedi cymryd blynyddoedd o waith caled, a newid gweinyddiaeth cyn i'r cerrig gael eu gosod yn eu lle ac roedd y perygl o fandaliaeth yn ddiddiwedd. Roedd graffiti ar waliau cyfagos yn

ein hatgoffa o'r frwydr barhaus honno; byddai sloganau anarchaidd yn cael eu hysgrifennu dros y gwreiddiol gan Ffalanchwyr ("Brenhiniaeth" a "Viva Mola!" sef cyfeiriad at y cadfridog terfysgol, sychedig am waed).

Ym mhobman, yn y Sierra Pandols uwchben yr Ebro, yn Ninas Brifysgol Madrid, roedd cofebion i'r rhyfel cartref yn Sbaen wedi cael eu difwyno, eu chwistrellu, neu eu fandaleiddio, fel y maent yng Nghymru. Roedd peth ohono'n ddigymell, ond mae'n rhaid bod rhan ohono wedi'i sancsiynu yn swyddogol.

Buom yn cerdded o gwmpas y dref ac fe welsom olion a oedd yn weddill o'r gwrthdaro bron i 80 mlynedd yn ôl. Daethpwyd â chlwyfedigion Tarancon o Jarama i gael eu trin mewn dau ysbyty a oedd unwaith yn blastai o eiddo dilynwyr Franco ac a neilltuwyd gan y llywodraeth Weriniaethol. Roedd un yn dal i fod yn gartref teuluol; fe achubwyd yr ysbyty arall rhag cael ei ddymchwel, ac roedd cynlluniau ar y gweill i'w droi'n amgueddfa.



Roeddem wedi codi'n gynnar fore Sadwrn er mwyn cerdded i Westy'r Agumar i ddal bysiau i faes y gad yn Jarama. Aethom heibio i gaeau a oedd yn sych iawn oherwydd prinder glaw a llwyni olewydd diddiwedd. Aethom heibio i fintai gref a oedd y diwrnod hwnnw yn cerdded ar hyd llinellau'r Pwyliaid a brigadau Ewropeaidd eraill yn Jarama.

Ychydig flynyddoedd yn gynharach, bu Ray fy ngŵr, a minnau yn Jarama yn ymweld â'r garnedd a adeiladwyd er cof am Kit Conway ac eraill a fu farw yno, yn cynnwys ewythr Ray, Harold Davies. Roedd y garnedd wedi cael ei fandaleiddio ac yr oedd plinth concriid a phlac wedi'u gosod yn ei lle. Byddai ymwelwyr yn gadael yno gofrodion a ddarganfuwyd ar faes y gad - shrapnel, tun, neu gasynau bwled.

Ymosodwyd ar y gofeb newydd hon hefyd gan fandaliaid gwrth-Weriniaethol ond byddai'n cael ei glanhau unwaith eto. Fe gerddom i *Suicide Hill*, a rhoddodd yr hanesydd Danny Payne drosolwg hynod ddiddorol i ni o'r frwydr fesul diwrnod.

Ceir yn hanes brwydr Jarama ddisgrifiad o sut, ar y trydydd dydd, sef Chwefror 14, y torrodd tanc Almaenig drwy linell y Sbaenwyr. Llwyddodd un Cymro i'w gadw draw gyda'i beirianddryll. Gwyddai Ray mai ei ewythr oedd yr arwr hwn. Roedd wedi gadael Cymru ac wedi ymuno â'r brigadau rhyngwladol yn Birmingham ac felly fe'i gelwid yn Taffy, a dim arall. Pan oeddynt ar eu gwanaf yn y frwydr, wedi'u gorniferu a'u trechu gan ergydion na allent eu gwrthsefyll, fe alwodd Frank Ryan ar y brigadwyr a oedd gyda'r *Internationale* i ailymgynnull a daethant at ei gilydd i barhau â'u hymgyrch.

Aethom i Morata ac i Fwyty *El Cid*. Yma, yn 1994, roeddem wedi clywed merch La Pasionaria yn darllen araith enwog ac ysbrydoledig ei mam i lond ystafell o Brigadistas, eu teuluoedd a'u cefnogwyr.

Erbyn heddiw, mae'r rhan fwyaf o'r rhai fu'n brwydro wedi mynd. Fodd bynnag, tra'n aros i'r bwyty agor, bûm yn siarad â dyn oedrannus. Sbaenwr a fagwyd yn y Swistir ydoedd, a gallai siarad pump o ieithoedd. Pan gychwynnodd brwydr Ebro yn 1938 ymunodd â'r fyddin Weriniaethol fel cyfieithydd ac yntau ond yn 17 oed. Dangosais iddo ddyddiadur fy ewythr Sidney o ddyddiau'r rhyfel ac fe ganom 'Ay Carmela' gyda'n gilydd.

Ar y dydd Sul fe ddaliom drên o orsaf Atocha ym Madrid, ac fe aeth â ni drwy wastadeddau a sawl gwenithfaen frig, heibio i dyrau Croesgadwyr a edrychai dros lwyni olewydd, maestrefi diwydiannol di-liw ac i mewn i Alicante.

Ar yr olwg gyntaf ymddangosai Alicante fel lle gwasgaredig, cyrchfan fodern i dwristiaid ac yn llawn gwestai tal. Roedd Franco wedi defnyddio'r hwb mewn twristiaeth o'r 60au ymlaen i ariannu ac i gadw gafael ar bŵer am 40 mlynedd ar ôl diwedd y rhyfel cartref. Ond y tu ôl i'r *Costa del Brits* gyda'i *Pizza Hut*, *Burger King* ayb, fe ddaethom ar draws yr hen ddinas. Cawsom *paella*, bwyd môr hyfryd, a buom yn crwydro'r strydoedd hynafol. Clywsom glychau'r Eglwys Gadeiriol yn adleisio yn erbyn y waliau cerrig wrth i ni gerdded heibio'r farchnad, a'r Castillo de Santa Barbara anferth uwch ein pennau.



Roeddem wedi cerdded o gwmpas y gaer drawiadol, a gafodd ei meddiannu gan luoedd Mwraidd, Saesneg a Sbaenaidd yn eu tro. Edrychais tuag at y llawr a sylwais ar graffiti wedi'i gerfio ar gerrig y pafin yn nodi dyddiadau o adeg y rhyfel cartref yn Sbaen. Bu cefnogwyr Franco a chefnogwyr y Gweriniaethwyr yno'n garcharorion yn eu tro.

Cawsom bryd o fwyd gyda'r *amigos* yn Ymddiriedolaeth Goffa'r Brigadau Rhyngwladol a'r Comision de Alicante nos Lun a buom yn canu caneuon y rhyfel cartref yn y bar i gyfeiliant fy ukelele.

Edrychwn ymlaen at ddarllen mwy am ymweliadau Wendy â Sbaen yn ein rhifynnau nesaf

BBC CYMRU AR DAITH ETHOLIAD

Beth yw'r pynciau pwysicaf wrth i Gymry fwrw eu pleidlais eleni? Beth yw'r materion lleol sy'n ennyn trafodaeth? A pa gwestiynau hoffte chi i'r gwleidyddion eu hateb?

Mae BBC Cymru yn dod i'ch ardal ac eisiau clywed gennych chi!

Yn y cyfnod yn arwain at Etholiad y Cynulliad ar Fai 5, fe fydd timau newyddion a rhaglenni BBC Cymru ar daith drwy Gymru.

Bydd y rhaglenni yn teithio i bob cwr o'r wlad er mwyn clywed pa bynciau sy'n tanio trafodaeth yn lleol a chael eich ymateb chi i'r hyn sy'n digwydd yn eich etholaeth a thu hwnt.

Bydd pabell fawr Etholiad Cymru 2016 yn ymweld â'r lleoliadau canlynol:

Dydd Llun 25 Ebrill

Tu allan i'r Ganolfan Ymwelwyr, Caerffili

Dydd Mercher 27 Ebrill

Yr Aes, Caerdydd

Mi fydd gweithgareddau yn y babell drwy gydol y dydd. Galwch draw i ddweud eich dweud a chymryd rhan yn y rhaglenni. Cewch gwrdd â'r cyflwynwyr a gweld Radio Cymru, Radio Wales, Newyddion 9 a Wales Today yn darlledu'n fyw. Bydd cyfle hefyd i chi gael profiad o ddarllen y newyddion, taro pleidlais ym mlwch pynciau llosg Newyddion 9 a rhoi tro ar ddefnyddio'r dechnoleg ddarlledu diwedddara'. Bydd y babell ar agor i'r cyhoedd o 7 o'r gloch y bore felly dewch draw i'n gweld!

Er mwyn cyfrannu at y rhaglenni a chael mwy o wybodaeth am y digwyddiadau yn eich hardal chi anfonwch ebost at taithetholiad2016@bbc.co.uk

Sioned Gwyn

Marketing and Communications Manager **Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu**

BBC Cymru Wales MC&A

Room **Ystafell** 3020 Cardiff **Caerdydd** CF5 2YQ

Ysgol Gymraeg Senghenydd 1971

Cerdd o gasgliad Moyra Davies yw'r gerdd hon am Ysgol Ifor Bach, cyn ei hail enwi, yn dathlu deng mlynedd ers sefydlu'r dosbarth cyntaf yn Ysgol Parc y Felin

Llon fo'n cyfarchion iddi hi,
Yr Ysgol ar lethrau'r cwm.
A ddaeth megis angel i achub y plant
Ac fel gwanwyn i'r erwau llwm.
Gan roi'i bysedd ar dannau'r delyn fud
A deffro'r alawon a fu'n cysgu cyhyd.
Deg oed a gwrid ar ei gwedd
Yn addewid blynyddoedd i ddod.
Blynyddoedd cipio'r llawlyfrau drud
Blynyddoedd cynnydd a chlod.
Cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o'i phlant
Âr iaith Gymraeg fel gwlith ar eu mant.

Ac i bob athro boed hael y clod
Eu haberth fu'n graenu'r gwaith
Eu sêl yn difa'r rhwystrau bob un
Gan dyfu blodau mewn paith.
Anerchwn y 'staff' a'u dihafal nwyd
Dan arweiniad y lodes o Gefen Llwyd.
A bendith fo ar y plant bob un
Sy'n gythreuliaid a saint bob yn ail.
A boed i Ysgol Senghenydd o hyd
Roi ei bywyd ar sicr sail.
Nid Brwydr Blenheim nac angladd John Moore,
Fo'u hetifeddiaeth - ond Ysbryd Glyn Dŵr.

Y Parchedig Gwilym Morris

~~BLE TI'N DOD O~~ *O le ti'n dod?*

NEIJAL?

18:00 14/04/16
SINEMA Y MAXIME, Y COED DUON

£3/TOCYN - 01443 820913
MORGANROBERTS@MENTERCAERFFILI.CYMRU



DOBU YN "NEIJAL!"

CYFARWYDOWYR GWEITHREDOL **JOBE BRUZAS A BRONWEN RICKARD** CYFARWYDOWYR CYNHYRCHU **NIA TUDOR A MORGAN ROBERTS**
CERDDORIAETH GAN **JESSICA BATTY** CYNHYRCHWYR GWEITHREDOL **JOBE BRUZAS A BRONWEN RICKARD** GOLYGWYD GAN **JOBE BRUZAS**



Taith Ieuenctid i



Dydd Sadwrn
Ebrill 30

Cwrdd yn Battlefield Live am 9:30yb

Sunnybank Farm, Rudry Cl, Caerffili CF83 3DT

Cysylltwch â Morgan **cyn Ebrill 18 2016** i sicrhau lle.
morganroberts@mentercaerffili.cymru 01443 802832/
07835877612

£30

bl 7+8



Blynyddoedd 7+

Dydd Mercher yn ystod Gwyliau Pasg

Mawrth 30 a Ebrill 6, 2016

1:00 - 4:00yp Canolfan y Glowyr,
Pentre'r Ffawydd, Caerffili. CF83 1ET

50c y sesiwn

Cyfle i gymdeithasu dros wyliau y Pasg gyda
ffrindiau - gweithgareddau amrywiol, ardal
ymlacio, gemau cyfrifiaduron a mwy, o dan
oruwchwyliath staff Menter Caerffili ac Urdd
Gwent.

Bydd rhyddid i fynd a dod, ond mae'n rhaid
cael caniatad rhiant.

Rhaid dod a'r slip caniatad a ffurflen iechyd
gyda chi.

maredjones@urdd.org / morganroberts@mentercaerffili.cymru



CYMRAG

#PethauBychain

Gwasanaethau yn y Gymraeg



Cysylltwch: 01443879396

LLYFRAU'R ENFYs Cyf
Vikki Alexander
E-bost-Llyfraurenfyys.cymru
Wefan/website - www.rily.co.uk
Facebook/llyfraurenfyys
07970172754
Llyfrau Cymraeg a ddwyieithog arbennig i bob oedran!

TACSI GORSAF CAERFFILI



Cysylltwch â KEITH ar
02922 362364 neu 07914 355195

Happy
Snappers



Lluniau
Llawen

Enthusiastic Amateur Photographers
All Occasions Considered - Reasonably Priced

Gwasanaeth Cymraeg Ar Gael

Tracey 07764 750916 Eluned 07825 615349



Nos Iau, Mai 5ed 2016

**Noder nad oes cyfarfod yn
ystod mis Ebrill**

Anwen Hill

“Chwilio am Marco”

Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach

7:00

Ar gyfer Cymry Cymraeg a
Dysgwyr Iefelau Uwch/Hyfedredd

COLEG GWENT : Ysgolion Undydd.

Pob Cwrs am 5 awr ar ddydd Sadwrn

Lleoliad	Dyddiad	Ffôn
Canolfan Glyn Ebwy	16/04/16	01495455300
Gorsaf Bŵer Cwmbrân	21/05/16	01633647647

COLEG GWENT: Ysgolion Haf

30 awr ar 8 lefel Yn cynnwys 14awr o wersi anffurfiol

01495 333710

Lleoliad	Diwrnod	Amser	Dyddiad
Campws Pontypŵl	Sad-Sul	8.45-17.00	14-15/05/16
Campws Pontypŵl	Llun- Gwen	8.45-17.00	25-29/05/16
Llanbed	Gwen-Sul	9.00-17.00	01-03/07/16

Clwb Llyfrau “Cwmni”

Caffi'r Hen Lyfrgell

Parc Morgan Jones, Caerffili

2 o'r gloch

Dydd Llun, 4ydd o Ebrill

yn trafod “Cuddliw”

Croeso cynnes i Gymry Cymraeg

a dysgwyr profiadol.

Manylion gan Jan:

Clwb Cerdded Pob Dydd Mercher 10 -12



(Dillad Gwrth-ddŵr, esgidiau cerdded/welis)

Am wybodaeth cysylltwch â Morgan Roberts -
Swyddog Prosiect Llais Menter Caerffili:

01443 802832

morganroberts@mentercaerffili.cymru

Clwb Cerdd Cwm Rhymni

Triptych Trio

Soprano, cello a piano

16eg o Ebrill

2:30

Ysgol Lewis i Ferched



Côr Cwm Ni

YMARFER

Pob nos Fawrth yn Ysgol Trelyn

7:00

Llun y Mis



Artist y Mis

Un o Rymni yw Rita Jones yn wreiddiol ond sydd wedi ymgartrefu yn Hendredenni, Caerffili ers dros 40 o flynyddoedd. Ar ôl gyrfa mewn amryw adrannau nyrsio penderfynodd ddilyn ei dawn arlunio. Mae hi'n arbennig o hoff o ddyfrliwiau.


Bydd darllenwyr "Cwmni" yn falch o gael gwybod y bydd Grŵp Arlunio Dydd Gwener y arddangos ym Methel, Heol Nantgarw, yn ystod y Benwythnos Flodau ddiwedd mis Mehefin.

Y Geiriau Cymysg

liwaugy	-	gwyliau
nwneginc	-	cwningen
clodies	-	siocled
uway	-	wyau
sgap	-	pasg
angwynn	-	gwanwyn
thyn	-	nyth

Atebion Posau'r Plant ar dudalen 7

Ddaethoch chi o hyd i'r NAW gwahaniaeth?



Y ddwy gwningen Basg oedd yr un fath oedd: Rhif 3 a Rhif 13